

cyffredin yr wythnos, enw'r seremoni yw *Havdalah* ('gwahaniad' neu 'raniad'). Mae berachot (bendithion) yn cael eu dweud dros y gwin a pherlysiau peraroglus. Mae'r perlysiau, sydd mewn blwch, yn cael eu cynnig i bawb. Mae rhai pobl yn credu fod hynny'n ffordd o wneud yr wythnos sydd i ddod yn fwy melys, neu'n gwneud i'r cof am Shabbat bara'n hwy. Yn ôl un dywediad rabbinaidd, mae pobl yn cael enaid ychwanegol ar Shabbat, sy'n dod â nhw yn nes at Dduw. Efallai fod y perlysiau hyn yn bywiogi'r enaid hwnnw wrth iddo fynd ymaith neu'n adfywio'r corff, sy'n teimlo'n wan wrth i'r enaid ychwanegol ymadael. Gyda Shabbat wedi dod i ben, mae kannwyll blethedig yn cael ei chynnau ac mae pobl yn estyn eu dwylo tuag at y goleuni wrth i drydedd bendith gael ei hadrodd. Mae hyn er mwyn ein hatgoffa mai'r peth cyntaf a greodd Duw oedd goleuni, y dylid ei ddefnyddio i ddibenion da. Mae'r holl synhwyrau corfforol yn cael eu defnyddio yn Havdalah i gynyddu'r ymdeimlad ysbrydol. Yng ngwedd hantodol Havdalah molir Duw am wahanu'r seciwlar a'r cysegredig; y tywyllwch a'r goleuni; y cenhedloedd paganaidd ac Israel; y chwe diwrnod a Shabbat. Mae'r gannwyll yn cael ei diffodd â'r gwin, ac mae un fendith olaf yn cloi'r seremoni. Mae pawb yn canu caneuon wedyn, yn enwedig un am Elias, y proffwyd sy'n cyhoeddi dyfodiad y Meseia.

13

rhythm y flwyddyn - gwyliau ac ymprydiau

Yn y bennod hon byddwch yn dysgu:

- am bwysigrwydd coffadwriaeth flynyddol mewn Iddewiaeth
- sut y mesurir y misoedd a'r blynyddoedd yn y calendr Iddewig
- am y gwyliau lleiaf ac ympryd Tishah B'Av.

Mae ymdeimlad cryf mewn Iddewiaeth o dreigl amser. Rydym wedi gweld hynny ym mhattrwm y gweddio dyddiol ac, yn enwedig, yn y broses o wahanu Shabbat (y Saboth) oddi wrth weddill yr wythnos. Mae'r teimlad yma, yn enwedig o amser hanesyddol, yn gryf iawn yn natliadau coffa blynyddol Iddewiaeth. Ar adegau penodol bob blwyddyn, mae digwyddiadau hanesyddol nid yn unig yn cael eu coffáu ond eu hailgreu – a thrwy hynny, eu hailfyw. Mae pobl yn *cael profiad* o amser, o safbwynt tymhorol a hanesyddol, i'w gwneud yn fwy ymybodol o amser a'i bwysigrwydd. Heb law am Ddydd y Cymod, bwriad pob diwrnod arbennig yn y flwyddyn Iddewig yw gwneud i bobl gofio gweithgaredd Duw mewn natur neu mewn hanes neu'r ddau.

Hanes

Mae adnod agoriadol Lefiticus 23 yn dweud wrthym am Shabbat. Mae'r bennod yn mynd ymlaen i bennu 'gwyliau penodol' eraill, gan roi crynodeb o'r calendr crefyddol Iddewig. Mae'r gwyliau yma yn 'gymanfaoedd sanctaidd', hynny yw, adegau pan fydd y bobl yn ymgynnull yn benodol i wrando ar y Torah'n cael ei ddarllen. Maen nhw'n adegau neu dymhorau penodedig, adegau mewn amser sy'n cynnig cipolwg ar y byd ysbrydol, tragwyddol. Mae'r defodau a'r gweddïau sy'n gysylltiedig â phob gŵyl, o'r cyfnod beiblaidd tan heddiw, yn ffordd o gael profiad ysbrydol, o feddiannu arwyddocâd gweithgaredd Duw yn hanes y bobl Iddewig a'i wneud yn eiddo i chi. Wrth reswm, dydy gwneud dim byd mwy nag ufuddhau i'r defodau ac adrodd y gweddïau ddim yn creu profiad ysbrydol ynddo'i hun. Gall Iddewon, fel cefnogwyr unrhyw grefydd arall, 'wybod y geiriau heb adnabod y Gair'. Ond mae'r ffaith fod cymaint o wyliau ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn Iddewig, a phob un yn cyfrannu rhywbeth arbennig at y ffordd Iddewig o fyw, yn cynnig posibiliadau anghyffredin. Gwyliau, ac yn enwedig, y prydau bwyd sy'n gysylltiedig â nhw, yw'r hyn mae rhai nad ydynt yn Iddewon yn tueddu i'w wybod ynglŷn ag Iddewiaeth. Ond camgymeriad fyddai gweld hynny fel dim byd mwy na chyfres o bartion pleserus. Yn hytrach, maen nhw'n rhoi rhythm crefyddol i'r flwyddyn.

Bwriad y manylion yn yr halachah ar sut i ymddwyn a beth i'w wneud yw egluro mwy am fwriad geiriau'r Beibl. Mae gwyliau o'r cyfnod ôl-feiblaidd yn datlu digwyddiadau pwysig yn hanes yr Iddewon hefyd. Er bod arferion a litwrgi yn amrywio o wlad

i wlad, mae pawb yn cydnabod fod y gwyliau'n nodi gwahanol brofiadau Iddewig ac yn ymateb i anghenion emosiynol yn ymwneud â'r profiadau hynny, gan gynnig cysur ac ysbrydoliaeth, a rhoi ystyr i hanes Iddewig.

Tymhorau

Mae'r pwyslais pennaf ar ailfyw'r digwyddiad hanesyddol, fel bod pobl, yn ddefnyddol, yn profi'r teimlad o weithgaredd dwyfol yn y gorffennol o'r newydd yn y presennol. Ond mae'r tymhorau ac amaethyddiaeth yn dal i fod yn bwysig yn y flwyddyn Iddewig. Fel y mae'r flwyddyn yn cynnwys holl amrywiaeth posibiliadau naturiol gyda dilyniant y tymhorau a chylchdro'r flwyddyn amaethyddol, felly y mae'r gwyliau'n cynnwys amrywiaeth cyfoethog o ansoddau seicolegol ac ysbrydol. Mae llawer o ysgolheigion yn pwysleisio tarddiad amaethyddol y gwyliau, gan gredu mai dim ond yn ddiweddarach y datblygodd eu pwysigrwydd hanesyddol. Maen nhw'n nodi'r tebygrwydd rhwng gwyliau'r Beibl a gwyliau gwledydd eraill yn yr hen Ddwyrain Agos. Ond cyn hir, datgan gwaith Duw yn hanes y ddynolryw oedd y peth hanfodol i'r Iddewon, hyd yn oed os mai gwyliau amaethyddol mwy cyffredinol oedd y datliadau hanesyddol yma yn wreiddiol. Yn sicr, mae'r hen dymhorau, a oedd yn cael eu mesur yn ôl cyfnodau'r lleuad ond yn cael eu pennu hefyd gan effaith yr haul ar y cnydau, yn egluro'r ddwy gyfres sylfaenol o ddathliadau.


Mae'r gyfres gyntaf yn digwydd yn y gwanwyn a dechrau'r haf. Mae'r paratodau ar gyfer gŵyl y gwanwyn, *Pesach* (y Pasg Iddewig) yn dechrau ar ddegfed dydd y mis cyntaf (Nisan), ac mae'r ŵyl ei hun yn cychwyn ar bymthegfed dydd y mis, dydd y lleuad lawn, ac yn para am wythnos (neu wyth diwrnod). Gan ddechrau cyfrif o ail ddiwrnod y Pasg, yn ôl y traddodiad Phariseaidd, mae cyfnod o 49 diwrnod yn arwain at ŵyl *Shavuot* ('Wythnosau' neu 'Pentecost') sy'n cael ei dathlu am ddiwrnod neu ddau. Mae cyfres o wyliau yn yr hydref chwe mis wedyn yn cydbwyso gwyliau'r gwanwyn. Y cyntaf o'r rhain yw *Rosh Hashanah* ('y Flwyddyn Newydd') sy'n para am ddau ddiwrnod, ar ddechrau'r seithfed mis (Tishrei). Ddeg diwrnod yn ddiweddarach, mae *Yom Kippur* ('Dydd y Cymod'), sef ymgydd diwrnod o hyd. Ar y pymthegfed o'r mis, mae *Sukkot* ('Tabernaclau') yn cael ei dathlu am wythnos (neu wyth diwrnod), gan arwain at yr ŵyl undydd ychwanegol *Simchat Torah* ('Llawenhau yn y Torah').

Gwyliau mawr a mân

Mae'n rhaid i ni ddeall y rhaniad yn y calendr Iddewig rhwng y gwyliau mwyaf a lleiaf. Mae pob prif ŵyl yn 'ddydd sanctaidd', *yom tov* (yn llythrennol, 'dydd da'). Tair nodwedd bwysicaf yom tov yw: llawenhau, sy'n cynnwys gorffwys o'ch gwaith a phrydau bwyd seremonïol; gweddïau arbennig a defodau synagog; seremonïau ac arferion yn ymwneud â phwnc yr ŵyl. Yn ôl y meini prawf hyn, tair prif ŵyl sydd, sef Pesach, Shavuot, a Sukkot. (A bod pob fanwl gywir, dim ond diwrnod cyntaf a diwrnod olaf Pesach a Sukkot sy'n 'ddyddiau sanctaidd'. Mae'r dyddiau rhyngddynt yn 'hanner-gwyliau' pan gynhelir gwasanaethau, a dim ond gwaith angenrheidiol sy'n cael ei ganiatáu.) Maen nhw'n darlunio tri chynfnod o'r exodus, ac mae litwrgi pob gŵyl yn sôn amdani fel 'cofeb i'r Exodus o'r Aifft'. Mae Pesach yn dathlu rhyddid yr exodus ei hun, mae Wythnosau yn rhoi i ryddid ei agwedd ysbrydol drwy goffáu rhoddi'r Torah ar Fynydd Sinai, ac mae Tabernaclau yn pwysleisio mai ym mhresenoldeb Duw y mae gwir ddiogelwch drwy gofio'r daith drwy'r anialwch i wlad yr addewid.

Mae'r rhain yn cael eu galw'n Wyliau'r Pererinion oherwydd, yn oes y Deml, byddai Iddewon yn mynd ar bererindod i Jerwsalem i offrymu aberth. Er dinistr y Deml yn 70OG, does neb yn offrymu, ond mae'r gwyliau'n dal yn bwysig, ac yn cynnwys llawer o ddathlu yn y cartref a'r synagog. Yn Israel, mae gwyliau'r Pererinion yn cadw eu cysylltiad ag amaeth, gyda Pesach yn digwydd adeg y cynhaeaf haidd, Shavuot ar adeg y cynhaeaf gwenith, a Sukkot ar adeg cynaeafu'r cnydau eraill. Mewn gwledydd eraill hefyd, mae gwyliau'r Pererinion yn llwyddo'n gelfydd iawn i gydbblethu hanes, amaethyddiaeth a materion personol. Adeg y Pasg, er enghraifft, mae pobl yn meddwl am ryddhau pobl o'u caethiwed gwleidyddol, am ryddhad y ddaear wrth iddi gynhyrchu bywyd newydd, ac am awydd pobl i ddianc rhag gormes neu ddim ond rhag diflastod bywyd bob-dydd. Mae natur gwyliau Rosh Hashanah a Yom Kippur ychydig yn wahanol. Maen nhw'n brif wyliau, yn yr ystyr eu bod yn tarddu o orchymyn beiblaidd a bod gwaharddiad ar weithio ar y dyddiau hynny, ond gwyliau dwys yw'r rhain yn hytrach na rhai llawen. Enw tri diwrnod Rosh Hashanah a Yom Kippur yw'r Uchel Wyliau Sanctaidd neu 'Ddyddiau'r Parchedig Ofn'. Mae pwyslais ar ofynion arswydus Duw ym mherthynas pob Iddew gydag ef a gyda phobl eraill. Yom Kippur, y prif ddiwrnod ymptyd hefyd, yw gŵyl bwysicaf y flwyddyn.

Mae holl wyliau ac ymptydiau eraill Iddewiaeth yn wyliau lleiaf. Dydy hynny ddim yn golygu nad ydyn nhw'n bwysig, dim ond nad yw'r Beibl yn eu gorchymyn; oherwydd hynny, does dim



cyfyngiadau fel sydd gyda'r gwyliau a'r ymptydiau beiblaidd. Gwyliau modern yw rhai o'r rhain, fel Dydd Annibyniaeth Israel, Dydd (ailuno) Jerwsalem, a Dydd Coffau'r Holocost. Mae rhai o'r gweddill yn hynafol, yn enwedig gwyl Pwrim, ond er bod hon yn seiliedig ar Lyfr Esther, chafodd hi mo'i sefydlu tan wedi'r cyfnod beiblaidd, felly un o'r gwyliau lleiaf yw hi.

Calendr y lleuad

Hydymis

Mae'r calendr Gregoraidd, gyda'i ddeuddeg mis sy'n amrywio o ran hyd, wedi ei seilio ar symudiad yr haul. Mae'r calendr Iddewig yn dilyn yr haul, yn yr ystyr fod tymhorau amaethyddol y flwyddyn yn dibynnu ar safle'r haul, ond pan luniodd yr hen Israeliaid eu calendr, dyma nhw'n seilio hwnnw ar symudiadau'r lleuad. Mae'r lleuad yn cymryd rhyw 29.5 diwrnod i gylchdroi o gwmpas y ddaear. Wrth iddi ddod i ben y cylchdro, mae llai a llai ohoni i'w gweld nes iddi ddiflannu'n llwyr, ac yna mae'n ailymddangos. Ailymddangosiad y lleuad, y lleuad newydd, sy'n arwyddo'r mis newydd i'r Iddewon. Y gair Hebraeg am 'mis' yw *hodesh* sy'n golygu 'yr hyn sy'n cael ei adnewyddu'. Y lleuad sy'n cael ei hadnewyddu a gyda hi, y mis. Felly calendr lleuad yw'r calendr Iddewig, yn ei hanfod.

Hyd y flwyddyn

Mae'n amlwg na all mis fod yn 29.5 diwrnod, ond bydd pob pâr o fisoedd yn 59 diwrnod, felly mae'r misoedd yn cael eu cymryd mewn parau, gyda 30 diwrnod yn y mis cyntaf, 29 yn yr ail, ac yn y blaen. (Weithiau mae hyn yn amrywio ychydig.) Mae hyn yn rhoi 354 o ddyddiau mewn flwyddyn Iddewig gyffredin, 11 diwrnod yn llai na blwyddyn yr haul. Roedd yn rhaid gwneud rhywbeth ynglŷn â hynny neu mi fyddai'r calendr Iddewig yn syrthio 11 diwrnod ar ei hôl hi bob blwyddyn nes bod blwyddyn y lleuad fisoedd ar ei hôl hi a'r gwyliau felly'n digwydd ar yr adeg anghywir. Mae Deuteronomium 16: 1 yn dweud fod dathliad y Pasg o'r exodus yn digwydd yn mis *Aviv* ('aeddffed'). Mae hynny'n golygu y dylai bob amser fod yn y gwanwyn. Er mwyn sicrhau fod hynny'n digwydd a bod Shavuot a Sukkot yn digwydd yn y tymhorau iawn, mae amser yn cael ei ychwanegu, fel bod blwyddyn y lleuad yn cydreded â blwyddyn yr haul. Gwener hynny drwy ychwanegu mis arall saith gwaith mewn cylch o 19 blynedd. Mis olaf y flwyddyn Iddewig, *Adar*, sy'n cael ei ddyblu. Yn y drydedd, chweched, wythfed, unfed ar ddeg, y

bedwaredd ar ddeg, yr ail ar bymtheg a'r bedwaredd flwyddyn ar bymtheg ym mhob cylchdro 19-blynedd, mae 'ail Adar', *Adar Sheni*. Mae gwyliau ac ymptydiau Iddewig yn digwydd ar adegau penodol yn y calendr. Er enghraifft, mae Pesach yn para o'r 15fed i'r 22ain o fis *Nisan*. Mae misoedd y flwyddyn Iddewig yn aml yn cael eu cyfrif o Nisan am fod hwnnw yn y gwanwyn, cyfnod dechrau o'r newydd. Mae Exodus 12: 2 yn dweud mai 'hwn fydd y mis cyntaf o'ch blwyddyn' am mai dyna pryd ddigwyddodd yr exodus. (Dylid nodi, fodd bynnag, fod gwyl y Flwyddyn Newydd Iddewig yn digwydd yn yr hydref.) Mae'r dyddiau sy'n cyfateb i'r 15-22 Nisan yn y calendr an-Iddewig yn amrywio rywfaint o flwyddyn i flwyddyn. Er enghraifft, yn 2007, bydd Pesach ar y 3ydd i'r 10fed o Ebrill, ond yn 2000, roedd ar yr 20fed i'r 27ain o Ebrill. Enwau Babilonaidd yw enwau misoedd y flwyddyn Iddewig, ac maen nhw'n mynd yn ôl i gaethglud yr Iddewon yn y chweched ganrif COG.

Rhifo'r blynyddoedd

O safbwynt rhifo'r blynyddoedd, rhaid cofio nad oedd ffordd unffurf o wneud hynny tan yr Oesoedd Canol. Dyna pryd y penderfynwyd dyddio o greadigaeth y byd, *Anno Mundi* (AM); yn ôl ysgolheigion Iddewig y cyfnod, ar sail hanes y Beibl, roedd hynny wedi digwydd yn y flwyddyn 3760 COG. Mae'r Talmud yn trafod ai yn y mis cyntaf (Nisan) neu'r seithfed mis (Tishrei) y cafodd y byd ei greu. I ddibenion dyddio, yr ail o'r rhain a ddefnyddir, a felly mae'r Flwyddyn Newydd Iddewig ar ddiwrnod cyntaf Tishrei. Er mwyn troi dyddiadau o OG i AM, rhaid ychwanegu 3760/1 i'r dyddiad OG. Felly mae'r flwyddyn 2000 OG yn mynd yn flwyddyn 5760 yn y calendr Iddewig, o'r 1af Ionawr i'r 29 Medi; o'r 30 Medi (dyddiad y Flwyddyn Newydd Iddewig yn 2000) rydym yn y flwyddyn Iddewig 5761. Dyma'r ffordd o ddyddio sy'n cael ei defnyddio mewn dogfennau cyfreithiol, llythyron, a phapurau newydd Iddewig, ond does dim arwyddocaeth athrawiaethol i hynny. Dydy defnyddio'r dull yma o ddyddio, felly, ddim yn cythruddo'r rheini sy'n dewis dehongli'r cofnod beiblaidd yn wahanol, gan gredu fod y ddaear yn aruthrol o hen, fel yr awgryma gwyddoniaeth.

Y lleuad newydd

Er fod y lleuad newydd wedi ei nodi yn y rhan fwyaf o ddyddiadauron, ychydig o an-Iddewon sy'n rhoi llawer o sylw i hynny. Yn yr hen Israel roedd ymddangosiad y lleuad newydd yn

bwysig iawn. Roedd pobl yn gwyllo amdani er mwyn gwybod pryd roedd y mis newydd yn dechrau a phryd, felly, i ddathlu gwyliau. Roedd disgwyl i'r lleuad newydd ymddangos ar y nawfed neu'r degfed dydd ar hugain o'r mis. Ar y degfed ar hugain, byddai'r Sanhedrin, y llys barn mawr yn Jerwsalem, yn ymgynnull ac aros am ddau dyst dibynadwy i ddod i ddweud eu bod wedi gweld y lleuad gilgant yn yr awyr. Ar ôl i'r tystion eu bodloni, byddai'r Sanhedrin yn cyhoeddi'r degfed dydd ar hugain yn lleuad newydd, *Rosh Chodesh* (yn llythrennol 'pen y mis'). Pe bai tywydd gwael yn golygu nad oedd neb wedi gweld y lleuad yn ailymddangos, byddai'r llys yn Jerwsalem yn dagan mai'r unfed ar ddeg ar hugain o'r mis oedd Rosh Chodesh. Roedd y neges yn cael ei chludo i bob rhan o Israel drwy oleuo coelcerthi a danfon negeseuwyf.

Doedd hi ddim yn bosibl dibynnu ar y broses yma pan aeth Iddewon i fyw y tu allan i Israel. Roedd tipyn o oedi cyn i gymunedau'r Diaspora, yn enwedig yn yr Aifft a Babilon, glywed a oedd y llys rabinaidd wedi cyhoeddi mai'r diwrnod ar ôl y nawfed ar hugain oedd Rosh Chodesh, neu wedi aros tan y diwrnod nesaf. Byddai Iddewon yn y cymunedau hynny, felly, yn dathlu Rosh Chodesh ar y degfed ar hugain, a phe baen nhw'n clywed ei fod wedi ei ohirio tan yr unfed ar ddeg ar hugain, yn cadw'r diwrnod hwnnw fel ail ddiwrnod Rosh Chodesh. Er mwyn bod yn hollol siwr eu bod yn dathlu'r gwyliau ar y ddydd iawn, dechreuodd yr Iddewon hyn gadw pob gwyl am ddiwrnod ychwanegol. Aeth Pesach yn wyth diwrnod o hyd, Rosh Hashanah yn ddau ddiwrnod, a Sukkot yn wyth diwrnod. Yr un eithriad oedd Yom Kippur gan ei bod hi'n anodd iawn ymprydio am ddeuddydd. Roedd yr Iddewon oedd yn byw yn Israel yn dal i gadw at y nifer o ddyddiau a nodwyd yn y Beibl, ac eithrio ar Rosh Hashanah a gafodd ddiwrnod ychwanegol am ei fod ar ddiwrnod cynta'r mis, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd hysbysu pobl o'i ddyfodiad mewn pryd hyd yn oed yn Israel.

Pan nad oedd goruchaf lys yn Jerwsalem mwych i gyhoeddi'r lleuad newydd, lluniwyd calendr parhaol. Cafodd y system yma, sy'n dal i gael ei defnyddio heddiw, ei sefydlu'n barhaus o dan Hillel II, Patriarch Iddewon Palestineina, tua 360 OG. Hyd yn oed ar ôl trefnu'r calendr, mae'r Talmud yn dweud fod Iddewon y Diaspora yn dal i gael eu cynghori i llynu wrth arfer eu cyndeidiau a chadw 'dau ddiwrnod y Diaspora' (Berzah 4b). Mae Iddewon Uniongred y tu allan i Israel yn dal i ddilyn yr arfer yma. Iddyn nhw, mae'n ffordd o bwysleisio sancteiddrwydd arbennig gwlad Israel sydd yn cadw at yr union ddyddiadau sydd yn y Beibl. Dydy Iddewon Diwygiedig ddim yn cadw'r dyddiau ychwanegol (er bod y rhan fwyaf yn cadw Rosh Hashanah am

ddeuddydd er mwyn cydfynd â'r arfer yn Israel fodern), gan gredu fod y ffaith fod modd gwybod yn union pryd mae pob gwyl heddiw yn gwneud cyngor y Talmud yn ddianghenraid. Mae rhai Iddewon Ceidwadol hefyd yn dadlau y dylid cael gwared ag ail ddydd y Diaspora oherwydd ei bod yn anghyson trin dydd nad yw hyd yn oed yn cael ei gadw fel gwyl yn Israel fel diwrnod sanctaidd.

Y lleuad newydd heddiw

Mae nifer o gyfeiriadau yn y Beibl at y lleuad newydd ynghyd â Shabbat a gwyliau eraill (e.e. Numeri 28). Yn yr oesoedd cynnar, mae'n amlwg fod y dydd yn cael ei ystyried yn ddydd gwyl, gyda dim ond gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud. Dros y blynyddoedd, datblygodd gwahanol syniadau am ba fath o waith allai gael ei wneud ar y diwrnod hwnnw. Heddiw, dydy dydd y lleuad newydd ddim yn wahanol iawn i unrhyw ddydd arall. Mae Iddewon Uniongred yn ei ystyried yn un o'r gwyliau lleiaf, ac mae dyfodiad y lleuad newydd yn cael ei gyhoeddi yn y synagog y Shabbat blaenorol, fel roedd yn arfer cael ei gyhoeddi gan y Sanhedrin. Mae darnau o wasanaeth y dydd yn gwneud Rosh Chodesh yn wahanol i ddyddiau wythnos cyffredin. Mae un weddi yn gobeithio y bydd y mis newydd 'yn dod er daioni, ac er bendith, er llawenydd a hapusrwydd, er iachawdwriaeth a chysur, er cefnogaeth a chynhaliath, er bywyd a heddwch, er maddau pechodau a maddau camwedd.' Mae'r rhestr o'r aberthau oedd yn cael eu hofferu gynt ar Rosh Chodesh (Numeri 28: 1-15) yn cael ei darllen o'r Torah. (Pan fydd y lleuad newydd yn ymddangos ar Shabbat, mae'r darlleniad yma yn dilyn y darlleniad o'r Torah am yr wythnos.) Mae rhan o'r *Hallel* yn cael ei ddarllen hefyd. 'Mawl' yw ystyr *Hallel* yn yr Hebraeg a defnyddir y gair i gyfeirio at Salmau 113-118, salmau llawen iawn sy'n cael eu canu yn ystod y rhan fwyaf o wyliau. (Dim ond rhan o'r *Hallel* sy'n cael ei ddarllen ar Rosh Chodesh, gan fod gwaith yn cael ei ganiatáu, ac yn ystod chwe diwrnod olaf y Pasg Iddewig, pan ystyrir y byddai'n amhriodol canu mawl llawn i Dduw wrth i'r Eifftiaid foddi.)

Gwyliau Chanukah a Pwrim

Er mai gwyliau lleiaf (pan nad oes unrhyw gyfyngiadau ar waith) yw Chanukah a Pwrim, mae'r ddwy wyl yn eithaf pwysig oherwydd yr hyn maen nhw'n ei goffáu yn hanesyddol, a'r agweddau maen nhw'n eu dathlu. Mae'r ddwy wyl yn bwysleisio teyrngarwch a dewrder yn wyneb erledigaeth, pwysigrwydd

rhyddid crefyddol a goroesi, a'r ffaith fod iawn yn gallu trechu grym. Mae Chanukah, yn enwedig, yn apelio at genedlaetholwyr a chylchoedd Iddewig seciwlar lle nad yw gwyliau crefyddol eraill yn cael eu dathlu, oherwydd ei fod yn sôn am frwydro dros hunaniaeth Iddewig ac annibyniaeth.

Y Macabeaid a Gŵyl y Cysegru

Mae enw Chanukah yn cyflew ysbryd a phwrpas yr ŵyl. *Chanukah* yw'r gair Hebraeg am 'gysegriad', ac mae'r ŵyl yn coffáu cysegriad y Deml, neu ailgysegriad y Deml wedi iddi gael ei halogi gan elynion y ffydd Iddewig yn yr ail ganrif COG. Yn y bedwaredd ganrif ceisiodd Alexander Fawr uno'r holl bobloedd roedd wedi eu trechu o dan gyfundrefn Roegaidd o arferion a chredoau. Roedd y broses o Roegiddio o fudd i'r Iddewon mewn rhai ffyrdd, ond roedd yn fygythiad hefyd am ei bod yn denu pobl i gefnu ar y traddodiad Iddewig a mabwysiadu arferion y Groegiaid.

Wedi marwolaeth Alecsander yn 323 COG, rhannwyd ei ymerodraeth rhwng gwahanol reolwyr. Aeth gwlad yr Iddewon, Jwdea bellach, yn rhan o'r Deyrnas Seleucaidd (Syriaidd-Roegaidd). Yn 175 COG, ceisiodd Antiochus IV, rheolwr y Deyrnas Seleucaidd, orfodi'r grefydd Roegaidd ar Iddewon oedd yn dal i greu mewn un Duw. Cyhoeddodd ei fod yn Dduw, gan alw ei hun yn Antiochus Epiphanes ('duw wedi ei amlygu'), ac annog Archoffeiriad yr Iddewon (lason yn gyntaf, ac yna Menelaws) a oedd, i bob diben, yn rheoli Jwdea, i ledaenu dylanwadau Groegaidd ymhlith yr Iddewon.

Yn y blynynoedd nesaf aeth Antiochus yn fwy ffyrnig byth yn erbyn crefydd yr Iddewon. Cyhoeddodd orchmynion yn gwahardd enwaedu, astudio'r Torah, a chadw'r Saboth. Codwyd allorau paganaidd ym mhob rhan o Jwdea ac aberthwyd anifeiliaid aflan arny'n nhw. Ym mis Kislev (Rhagfyr) 167 COG, cododd allor i'r duw Zeus ym muarth y Deml ac aberthu moch yno. Achosodd hynny wrthryfel dan arweinid Matathias, offeiriad oedranus Modin, pentre y tu allan i Jerwsalem. Ymsododd Matathias a'i bum mab ar y Groegiad ac ymladd ymgyrch *guerrilla* yn eu herbyn. Wedi marwolaeth Matathias ym 166, arweinwyd yr Iddewon teyrngar gan ei drydydd mab, Jwdas 'Macabeus'. Mae'r enw'n awgrymu 'morthwyl' ac efallai ei fod yn cyfeirio at frwydro arwrol Jwdas yn erbyn lluoedd y Groegiaid. Erbyn mis Rhagfyr 164 roedd Jwdas a'i wŷr wedi ennill rheolaeth ar Jerwsalem, a dyma fynd ati i adfer ac ailgysegru'r Deml.

Mae hanes ailgysegru'r Deml a gwrthryfel y Macabeaid a arweiniodd at hynny, yn 1 a 2 Macabeaid; mae'r brif stori yn 1 Macabeaid 1-4. Daeth yr uchafbwynt ar 25 Kislev 164 COG pan

aeth Jwdas a'i ddynion i mewn i'r Deml a rhwygo i lawr yr allor a gawsai ei halogi dair blynedd union cyn hynny. Dyma godi allor newydd ac ail-oleuo'r menorah (y canhwylbren saith-cangen) mawr. Wedi'r seremoniau puro ac ailgysegru, penderfynwyd dathlu'r digwyddiad bob blwyddyn (1 Macabeaid 4:59).

Y Talmud a Gŵyl y Goleuadau

Heb law am fod yn ŵyl y Cysegru, Chanukah yw 'gŵyl y Goleuadau' hefyd. Mae hyn yn ymwneud â stori yn y Talmud sy'n adrodd hanes gwyrrth yn y Deml pan aeth Jwdas a'i ddynion ati i'w hailgysegru. Pan aethon nhw i mewn i'r Deml, dim ond un botelaid o olew heb ei halogioedd yno i oleuo'r menorah. Dim ond diwrnod y byddai hynny o olew wedi para fel arfer, ond yn ôl y stori, parhaodd yn wyrthiol am wyth diwrnod, gan roi amser i baratoi olew newydd, pur.

Mae'r Talmud yn dweud y dylid goleuo lamp ar bob un o wyth diwrnod Chanukah i ddathlu'r wyrth yma. Yr wyth lamp yw prif symbol yr ŵyl erbyn hyn. Mae naw lamp neu gannwyll, a bod yn fanwl gywir, oherwydd mae rhaid defnyddio un gannwyll i oleuo pob un o'r wyth gannwyll arbennig. Dydy'r rhain ddim yn cael eu defnyddio i unrhyw ddiben ymarferol. Enw'r gannwyll sy'n goleuo'r gweddill yw'r *shamash* ('y gwas'), ac mae'n sefyll ar ganol menorah Chanukah (y *chanukiah*). Ar noson gyntaf Chanukah, mae'r gannwyll gyntaf (yr un bellaf ar y dde ar y menorah) yn cael ei goleuo, ac ar yr ail noson, yr un nesaf ati. Mae'r gwas yn goleu'r gannwyll nesaf ac yna'r un ar y dde iddi ac yn y blaen, nes bod yr holl gannwyllau yn llosgi ar y noson olaf. Mae gosod y canhwylau o'r dde i'r chwith, ond eu goleuo o'r chwith i'r dde yn rhoi'r un pwysigrwydd i ddwy ochr y chanukiah, sy'n cyfleu fod Duw yn bresennol ym mhob man. Mae'r Talmud yn dweud y dylai'r goleuadau losgi lle gall pobl eu gweld (Shabbat 22a), a gallwch weld chanukiah yn ffenestri cartrefi Iddewon yn aml yn ystod Chanukah.

Mae'r canhwylau'n cael eu goleuo pan fo'r teulu ynghyd. Cenir caneuon arbennig, yn enwedig *Maoz Tsur* ('O gaer, o graig', sy'n annerch Duw). Mae'r gân yn cofio'r naill waredigaeth ar ôl y llall: o'r Aifft, o'r gaethlud ym Mabilon, o fygythiad Haman i ddileu'r Iddewon (gweler isod) ac, yn olaf, rhag arswyd Antiochus Epiphanes. Mae'r pwynt yma'n un canolog yn Haftarah (darlleniad o Lyfrau'r Proffwydi) gŵyl Chanukah: "Nid trwy lu ac nid trwy nerth, ond trwy fy ysbryd" medd ARGLEWYDD y lluoedd. (Sechareia 4: 6). Rhoddir anrhegion, ac mae bwydydd wedi eu ffrio mewn olew yn cael eu bwyta, *latkes* (crempog tatws) yn bennaf. Mae gêm draddodiadol i blant yn cael ei chwarae gyda

dreidle ('top') sydd â llythyren Hebraeg ar bob un o'i bedair ochr. Mae'r llythrennau hyn yn sefyll am yr ymadrodd Hebraeg: 'Digwyddodd gwrth fawr yn y fan honno'. Mae'r ffaith fod Chanukah yn ŵyl y goleuni, bod ganddi ganeuon arbennig, anrhegion, bwydydd a chwaraeon, a'i bod yn digwydd ym mis Rhagfyr (weithiau ar y 25ain o Ragfyr) yn gallu achosi i rai nad ydynt yn Iddewon feddwl am Chanukah fel Nadolig Iddewig. Dydy hon ddim yn gymhariaeth dda, o safbwynt Cristnogion nac Iddewon. Mae ystyr canolog y Nadolig, sef Duw wedi ei ymgnewdoli yn y dyn, Iesu Grist, o bwys hanfodol i Gristnogion ac yn annerbyniol i Iddewon. Ystyr ganolog Chanukah yw gwrthsafiad Iddewiaeth yn wyneb pwysau syniadau ac arferion crefyddau eraill.

Esther a Gŵyl y 'Coelbrennau'

Pwrim yw'r ŵyl leiaf arall sy'n cofio cyfnod anodd yn hanes yr Iddewon ac yn annog gobaith ac ymddiriedaeth yn Nuw. Fel Chanukah, dydy hon ddim yn ŵyl wedi ei gorchymyn gan y Torah, ond mae'n deillio o benderfyniad gan y Rabbiniaid i goffáu digwyddiad hanesyddol. Mae Pwrim wedi ei seilio ar y stori a adroddir mor fyw yn llyfr Esther – llyfr y bu llawer o ddadlâu rabinaidd yn ei gylch (Megillah 7a) cyn iddo gael ei dderbyn yn rhan o ganon y Beibl. Dydy enw Duw ddim yn ymddangos yn y llyfr (sydd wedi rhoi rhyddid i artistiaid i ddarlunio ac addurno'r sgrôl). Mae ysgolheictod modern yn tueddu i ystyried y llyfr fel stori fer ddychmygol, sydd efallai â chraidd o wirionedd hanesyddol, a sgrifennwyd yn oes y Macabeaid i atgyfnerthu gwladgarwch Iddewig. Y cyfeiriad cyntaf at Pwrim mewn llenyddiaeth Iddewig yw 2 Macabeaid 15: 36 sy'n sôn am 'Ddydd Mordecai', sy'n cael ei ddathlu ar 14 Adar. Mae rhai pobl yn credu mai'r hyn sy'n bwysig yw ei bod yn stori o gyfnod y Persiaid, ond dydy hynny ddim yn effeithio ar ei phwysigrwydd yn y Flwyddyn Iddewig. Pwrim yw'r mwyaf ysgafn-galon o'r gwyliau, ac mae'n dysgu, â ffraethineb iach, y wers gyson yn hanes yr Iddewon, sef na all gormeswyr drechu daioni a gwirionedd. Yn nyddiau cynnar Iddewiaeth Ryddfrydol, cafodd Pwrim ei ddileu o'r calendr, gan fod y mudiaid yn teimlo nad oedd hi'n briodol annog cenedlaetholdeb Iddewig na chymradwyo cymeriadau llyfr Esther, sydd â chymhellion amheus.

Mae enw'r ŵyl yn dod o'r gair yn Llyfr Esther am 'goelbren' ('pwr'), gan fod dihiryn y stori, Haman, wedi bwrw coelbren i benderfynu ar ba ddiwrnod i ladd yr Iddewon sef 14 Adar. Ond

Haman ei hun gafodd ei ddienyddio y diwrnod hwnnw. Fel hyn mae'r stori'n mynd. Priododd Esther y brenin Ahasferus (Xerxes I, yn marn rhai), brenin Persia yn y bumed ganrif COG, gan gelu'r ffaith mai Iddewes oedd hi. Dysgodd unig berthynas Esther, Mordecai, fod cynllwyn i ladd yr Iddewon, a dywedodd wrth Esther amdano. Cynllwyn Prif Weinidog Ahasferus, Haman, oedd yn casáu'r Iddewon, oedd hwn. Roedd Mordecai, a oedd yn gweithio i'r brenin, yn gwrthod ymgrymu i Haman, oherwydd ei ffydd Iddewig; oherwydd hynny, llwyddodd Haman i ddarbwylllo'r brenin fod ei ddeiliaid Iddewig yn annheyrngar iddo. Aeth y cynllwyn i'r gwellt pan glywodd Ahasferus amdano gan ei wraig ei hun. Roedd Ahasferus yn edmygu dewrder Esther a oedd wedi rhoi ei hun mewn perygl drwy gyfaddef ei bod yn Iddewes, a dienyddiwyd Haman yn lle'r Iddewon.

Y plant sy'n creu awyrgylch garnifal Pwrim. Maen nhw'n gwisgo i fyny ac yn actio dramâu doniol yn seiliedig ar stori Esther. Maen nhw hefyd yn bwian, yn curo'u traed, ac yn chwifio *greggers* (rhywbeth tebyg i ratl bêl-droed) bob tro mae enw Haman yn codi yn y darlleniad yn y synagor. Mae darllen llyfr Esther yn gyfan yn gyhoeddus yn un o bedwar mitzvah (dyletswydd) Pwrim. Mae'n cael ei ddarllen nid o lyfr ond o sgrôl. Am mai'r Hebraeg am sgrôl yw *megillah*, mae pobl yn cyfeirio'n aml at lyfr Esther fel 'y Megillah'. Mae'r Megillah'n cael ei ddarllen gyda'r nos a bore drannoeth. Yr enwocaf o fwydydd traddodiadol Pwrim yw'r cacenni tri-chornel o does melys wedi eu llenwi â chymysgedd o hadau pabi a mêl. Mae pob cymuned Iddewig yn gwneud y cacenni hyn, sydd â sawl gwahanol enwau ac sydd i fod i gynrychioli het Haman, clustiau Haman, neu bocedi Haman (mewn Iddeweg, *hamantaschen*).

Mae Esther 9: 22 yn sôn am y cyferbyniad rhwng tristwch a llawenydd, galar a gŵyl. I geisio ailgreu'r cyferbyniad yma, mae Iddewon yn ymprydio y diwrnod cyn Pwrim. Maen nhw'n cofio ympryd Esther cyn iddi hi fynd i erfyn ar ei gŵr i drugarhau wrth ei ddeiliaid Iddewig (Esther 4: 16). Tri mitzvah arall Pwrim yw: gwledda a llawenhau (mae gwledd yn rhan o'r diwrnod fel arfer); rhoddion i'r tlodion; a rhoddion i'w gilydd. Mae'r mitzvot hyn yn Esther 9: 18-19. Mae'r darn hefyd yn egluro pam mae Iddewon yn Jerwsalem yn dathlu Pwrim ar 15 Adar, sef diwrnod yn hwyrach nag Iddewon bobman arall. Mae muriau hynafol yr hen Jerwsalem, o ddyddiau Josua, yn ôl y Rabbiniaid yn ei gwneud yn 'ddinas gaerog', debyg i'r hen brifddinas Bersiaidd Shushan (neu Susa) a enillodd ei buddugoliaeth ddiwrnod yn ddiweddarach nag Iddewon y taleithiau. Enw'r dydd gŵyl yw *Shushan Purim*. Mewn

blwyddyn naid, mae Shushan Purim a Pwrim yn cael eu dathlu ar y pymthegfed a'r pedwerydd ar ddeg o'r trydydd mis ar ddeg, sef Adar Sheni.

Gwyliau eraill

Mae tair gwyl arall sydd â chysylltiad arbennig â gwlad Israel, ond sy'n cael eu dathlu gan Iddewon mewn mannau eraill.

Blwyddyn Newydd y Coed

Mae'r cyntaf o'r rhain yn hen iawn, ac yn gysylltiedig â'r Flwyddyn Newydd amaethyddol. Mewn bywyd modern, byddwn yn sôn am y flwyddyn galendr (sy'n dechrau ym mis Ionawr), y flwyddyn ariannol (sy'n dechrau ym mis Ebrill), a'r flwyddyn academaidd (sy'n dechrau ym mis Medi). Roedd gan Israel gynt fwy nag un Blwyddyn Newydd hefyd, yn dibynnu ar ba agwedd o fywyd oedd dan sylw. Roedd yn rhaid i ffermwyr roi cyfran o'u cynydau bob blwyddyn i'r offeiriad a'r tlodion. Roedd cyfraniad neu'r degwm yma yn cael ei gyfrif o ddyddiad neilltuol, a'r dyddiad gafodd ei ddewis oedd 15 Shevat, mewn Hebraeg, *Tu B'Shevat*.

Mae'r Talmud yn awgrymu mai'r rheswm dros ddewis y dyddiad yma oedd ei fod yn nodi diwedd y tymor glawog yn Israel (Rosh Hashanah 14a). Roedd sudd y coed yn llifo eto, gan ddod â bywyd newydd, a chnwd newydd o ffrwythau i'r coed. Mae'r wyl hon yn aml yn cael ei galw'n Flwyddyn Newydd y Coed, ac yn Israel bydd pobl yn plannu coed i'w dathlu. Mae Iddewon mewn gwledydd eraill yn aml yn cyfrannu arian i brojectau plannu coed o'r fath, ac yn datgan eu cysylltiadau ag Israel drwy fwyta ffrwythau nodweddiadol o'r wlad, fel pomgranadau ac olewydd. Y traddodiad yw ceisio bwyta pymtheg math o ffrwyth. Heddiw, dathliad o ddiolchgarwch am ffrwyth y dddear yw Tu B'Shevat.

Dydd Annibyniaeth Israel a Dydd Jerwsalem

Mae gwyliau modern *Yom Haatzmaut* (Dydd Annibyniaeth Israel) a *Yom Yerushalayim* (Dydd Jerwsalem) yn cael eu dathlu ar y 5 a'r 28 o Iyar. Ar y 5 Iyar 5708 (14 Mai 1948) cyhoeddodd David Ben Gurion sefydlu gwladwriaeth Iddewig Israel. Ym 1949, cyhoeddodd Prif Rabbi Israel y dylai'r diwrnod fod yn wyl gyhoeddus, a sefydlu trefn gwasanaeth arbennig ar gyfer y cyrddau hwyrol a boreol. Dydy rhai Iddewon Uniongred ddim yn cydnabod Yom Haatzmaut fel gwyl newydd, ond mae llawer o

Iddewon ym mhedwar ban y byd yn cadw'r wyl. Yn Israel, mae cynn seiren yn cyhoeddi dau funud o ddistawrwydd er cof am y rhai fu farw yn yr ymladd ar adeg y Datganiad Annibyniaeth. Os yw'r dydd yn cyd-daro â Shabbat, mae'n cael ei ddathlu ar y dydd lau blaenorol. Trydydd diwrnod y Rhyfel Chwe Diwrnod ym 1967 oedd 28 Yiar (7 Mehefin) pan feddiannodd byddin Israel y rhan o Jerwsalem a oedd wedi bod yn y sector Arabaidd ers y rhaniad ym 1948. Dyma'r rhan oedd yn cynnwys y Wal Orllewinol sef yr unig ran o'r Deml sydd ar ôl wedi 7000 a man mwyaf cysegredig yr Iddewon. Chwythodd prif gaplan y fyddin y corn hwrdd a gosododd y Gweinidog Amdiffyn ddarn o bapur â'r weddi 'Heddwch a fo ar Israel' wedi ei sgrifennu arno mewn hollt yn y wal. Mae dathliad blynyddol Yom Yerushalayim yn denu torfeydd anferth sy'n ymgynnull wrth y Wal Orllewinol. Mae llawer o Iddewon ym mhedwar ban y byd yn mynd i'r synagog i ddathlu aduniad hen rannau a rhannau newydd Jerwsalem.

Ymptydiau

Mae bwyta'n rhan bwysig o ddathlu i'r Iddewon. I gyfleu'r gwrthwynebi ddathlu, bydd Iddewon yn rhoi'r gorau i fwyta ac yn ymptydio. Mae pum diwrnod ymptyd cyhoeddus mewn Iddewiaeth. (Mae ymptydiau eraill yn gyfyngedig i grwpiau neu unigolion neilltuol. Mae'r diwrnod cyn y Pasg Iddewig yn ddiwrnod ymptyd ar gyfer rhai cyntaf-anedig, i goffáu achub cyntaf-anedig yr Israeliaid yn yr Aifft (Exodus 12). Bydd priodfab a phriodferch yn ymptydio cyn eu seremoni briodas, i nodi dechrau cyfnod newydd yn eu bywydau.) Yr unig ymptyd sydd wedi ei orchymyn gan y Torah yw Yom Kippur (gweler pennod 15) pan fydd Iddewon yn edifarhau am eu camweddau. Mae traddodiad Iddewig wedi ychwanegu pedwar diwrnod ymptyd arall, bob un yn goffáu digwyddiad trist yn hanes yr Iddewon. Mae rhai pobl yn credu mai gwreiddiau amaethyddol sydd i'r rhain, fel y gwyliau.

Ymptydio i goffáu colli'r deml

Yr ymptyd pwysicaf ar ôl Yom Kippur yw *Tishah B'Av* ('y 9fed o Av'). Ar yr dyddiad hwn yn 586 COG dinistriodd y Babiloniaid y Deml gyntaf ac, yn 70 OG, dinistriodd y Rhufeiniaid yr ail Deml. Digwyddodd trasiediau eraill yn hanes yr Iddewon ar Tishah B'Av, yn enwedig cwymp caer Bar Cochba yn 135 OG, troi'r Iddewon allan o Brydain yn 1290 OG, a thro'i'r Iddewon allan o

Sbaen yn 1492 OG. Mae rhai synagogau'n coffáu dinistr yr Holocost ar Tishah B'Av. Mae'n well gan eraill neilltuo diwrnod arbennig ar gyfer hyn, 27 Nisan, sef *Yom Ha-Shoah* (gweler pennod 16). Fel Yom Kippur, mae Tishah B'Av yn ymryd 25 awr (mae pob ymryd arall yn para o doriad gwawr tan yr hwyr). Mae awyrgylch o dristwch aruthrol yn y synagog. Mae'r llen yn cael ei dynnu oddi ar yr arch a'r gorchudd o'r ddesg ddarllen. Mae'r goleuadau'n isel, ac mae llyfr Galarnad yn cael ei lafarganu'n brudd. Yng ngwasanaeth y bore, mae pawb yn gweddio'n dawel, heb addurn tallit na tephilin. Yng nghanol y tristwch mae gobaith am y dyfodol ac yn y saith wythnos sy'n dilyn Tishah B'Av, mae pob gwasanaeth Shabbat yn cynnwys neges o gysur ac addewid, gan ddechrau gydag Eseiā 40.

Dydy Iddewon an-Uniogred ddim yn credu ei bod hi'n iawn pwysleisio'r Deml a gweddio am ei hadfer. Maen nhw'n cadw Tishah B'Av i gydnabod dioddefaint yr Iddewon pan ddinistriwyd y ddwy Deml, ac achlysuron ofnadwy eraill yn hanes yr Iddewon, ond dydyn nhw ddim yn cadw'r ymptydiau eraill sy'n galaru am golli'r Deml. Ond mae Iddewon Uniongred yn credu fod y Deml yn arwydd mor bwysig o bresenoldeb Duw gyda'i bobl fel bod rhaid iddi barhau i fod yn ganolbwynt i Iddewiaeth. Mae Salm 137: 5-6 yn mynegi hyn:

*Os anghofiaf di, Jerwsalem,
bydded fy nebeulau'n ddiffwrth;
bydded i'm tafod lynu wrth daflod fy ngenau
os na chofiaf di,
os na osodaf Jerwsalem
yn uwch na'm llawerydd pennaf.*

Felly maen nhw'n cadw ymptydiau ychwanegol ar 10 Tevet, sef dyddiad dechrau gwarchae Babilon ar Jerwsalem, a 17 Tammuz, y dyddiad y chwalodd y Rhufeiniaid furiau Jerwsalem yn 70 OG gan arwain at ddinistr y Deml, a'r ymryd cysylltiedig ar 3 Tishrei, sef Ymryd Gedaliah. Ar ôl dinistrio'r Deml ac alludio llawer o Iddewon yn 586 COG, penododd y Babiloniaid Gedaliah yn llywodraethwr ar y bobl oedd yn dal ar ôl yn Jwdea. Cafodd ei lofruddio gan elynion, gan chwalu unrhyw obaith am barhad yn y gymuned Iddewig. I Iddewon Uniongred, y tair wythnos yn dilyn yr 17 Tammuz yw adeg dristaf y flwyddyn Iddewig, gyda defodau galaru (er enghraifft, peidio â gwrandao ar gerddoriaeth) yn dwysáu wrth i Tishah B'Av nesáu. Mewn llawer cymuned, does neb yn bwyta cig nac yn yfed gwin o'r 1af hyd at y 9fed o fis Av.

14 gwyliau'r pererinion

Yn y bennod hon byddwch yn dysgu:

- am darddiad y tair prif ŵyl, sef y Pasg Iddewig, Wythnosau, a Thabernaclau
- am bwysigrwydd ailfyw'r profiad o ennill rhyddid, derbyn y Torah, a dibynnu ar Dduw
- am symbolaeth gyfoethog a seremonïau'r gwyliau hyn.